
# Supermwls

Roderick Hunt Alex Brychta

Pïod

DRAKE






Roedd ‘Sioe Ci’r Flwyddyn’ ar y teledu.
“Mae’r cŵn yn rhedeg mor gyflym,” meddai Mam.
“Maen nhw’n mwynhau eu hunain.”

Gwylion nhw gi o’r enw Pupur. Rhedodd yn gyflym heb wneud ’run camgymeriad.

“Gobeithio mai Pupur fydd yn ennill,” meddai Dids.



Racsyn oedd y ci nesaf. Fo oedd y gorau gan Onw. "Hoffwn i petai Racsyn yn ennill," meddai Onw. "Edrychwch mor gyflym mae'n rhedeg."


Roedd pawb yn llawn cyffro fel roedd Racsyn yn cyrraedd y diwedd, ond Pupur enillodd.

"Pupur oedd fy newis i," gwaeddodd Cad.



Roedd Mwlsyn yn cysgu ar y llawr. Rhoddodd Cad bwniad iddo â'i throed. "Deffra, Mwlsyn," meddai hi. "Edrych ar y cŵn clyfar yma. Pam na fedri di wneud pethau clyfar?"

Agorodd Mwlsyn un llygad. Yna agorodd ei geg a mynd yn ôl i gysgu.




Y diwrnod wedyn, aeth Cad, Dids ac Onw allan i chwarae. Daeth Wilff a Wilma draw. Cysgai Mwlsyn ar y glaswellt.

"Welsoch chi 'Sioe Ci'r Flwyddyn'?" gofynnodd Cad.

"Do. Roedd hi'n ardderchog," meddai Wilma.







" 'Sgwn i fedrai Mwlsyn wneud rhai o'r pethau welson ni?" meddai Dids.

Cafodd Cad hyd i focs. "Tyrd, Mwlsyn," meddai. "Neidia ar y bocs yma."

Edrychodd Mwlsyn ar y bocs. "O na! Rydw i'n rhy hen i wneud triciau," meddyliodd.




Gwnaeth y plant gwrs rhwystrau i Mwlsyn. Roedd pethau iddo redeg o'u hamgylch neu neidio drostyn nhw.

"Rhown ni wobr iddo bob tro bydd o'n gwneud yn dda," meddai Cad. "Dyna'r ffordd i ddysgu ci."

"O na!" meddyliodd Mwlsyn. "Sobor o beth!"



Ar y cychwyn, roedd Mwlsyn yn eitha da. Ond cyn bo hir roedd o wedi blino ac wedi 'laru ar y plant i gyd yn gweiddi arno ar unwaith.

"Dydw i ddim eisio bod yn Gi'r Flwyddyn," meddyliodd. "Rydw i eisio llonydd."

"Rwyt ti'n anobeithiol!" meddai Onw.




Daeth mam Wilma draw. Roedd hi eisiau mynd â phawb i nofio. Roedd Onw yn hoffi mynd i nofio efo mam Wilma. "Bydd hi'n prynu hufen iâ inni bob tro," meddai.

Roedd Mwlsyn yn falch hefyd. Roedd o eisiau lle tawel i fynd i gysgu.





Sleifiodd Mwlsyn i ystafell Cad. Gwyddai na fyddai Cad a Dids yn ôl am yn hir iawn. Roedd o bron wedi cysgu pan wnaeth rhywbeth iddo agor un llygad. Roedd yr allwedd hud yn disgleirio.

Fydd cŵn yn cael anturiaethau hud ar eu pennau eu hunain? Cychwynnodd yr hud.




Roedd Mwlsyn mewn dinas fawr. Roedd y ddinas yn llawn pobl a thraffig. Roedd pawb yn brysur. Roedd twrw ymhobman.

"Wel," meddyliodd Mwlsyn. "Dyma'r ddinas fawr! Welais i 'rioed gymaint o bobl. A welais i 'rioed adeiladau mor uchel. Am le!"



Aeth Mwlsyn am sgawt drwy'r ddinas. Roedd tram yn cario pobl i fyny ac i lawr rhiw serth. Doedd Mwlsyn erioed wedi gweld bysiau fel y rhain o'r blaen.

Aeth merch heibio gyda dau gi. "Am gŵn doniol," meddyliodd Mwlsyn. "Welais i erioed gŵn yn gwisgo cotiau o'r blaen."




Roedd pram y tu allan i siop. Yn y pram roedd babi. Yn sydyn, cychwynnodd y pram symud. Roedd mam y babi wedi anghofio rhoi'r brêc ymlaen.

I ddechrau, sylwodd neb ar y pram. Yna aeth yn gyflymach ac yn gyflymach.

"Stopiwch y pram yna!" gwaeddodd rhywun.



Rholiodd y pram i'r ffordd. Roedd yn mynd yn rhy gyflym i neb ei stopio.

"O na!" sgrechiodd y fam. "Bydd fy mabi'n cael ei ladd. Gwnewch rywbeth wir!"

Gwelodd Mwlsyn y pram yn dianc i lawr yr allt. "Dyma rywbeth y medra i ei wneud," meddyliodd.




Rhedodd Mwlsyn ar ôl y pram a chydio ynddo â'i ddannedd. Llwyddodd i'w stopio.

"Whiw!" meddyliodd Mwlsyn. "Cael a chael oedd hi!"

Rhedodd pobl yno. "Welsoch chi beth wnaeth y ci yna?" gwaeddodd dyn. "Dyna ichi arwr!"

"Achubodd o fy mabi i!" gwaeddodd y fam.





Roedd pawb yn canmol Mwlsyn. "Welsoch chi'r ci yna?" meddai pobl. "Stopiodd o'r pram."

"Supermwls!" gwaeddodd rhywun.

"Wnes i ddim byd," meddyliodd Mwlsyn.

Yn sydyn, gwelodd rywbeth arall yn digwydd.



Roedd gwraig wedi gadael ei bag llaw gyda'i basged siopa. Roedd hi'n edrych ar y babi yn y pram. Yn sydyn, cipiodd lleidr y bag llaw a rhedeg i ffwrdd.

"Help!" gwaeddodd hi. "Mae fy mag i wedi mynd."

"Gwaith arall i Supermwls," meddyliodd Mwlsyn.





Rhedodd Mwlsyn ar ôl y lleidr. Ceisiodd y lleidr fynd dros wal, ond roedd Mwlsyn yn rhy gyflym iddo. Cydiodd yn ei drowsus a gollyngodd y dyn y bag.

"Grrrrr!" chwyrnodd Mwlsyn.

"Iawn! Iawn!" meddai'r lleidr. "Doeddwn i ddim am ei gadw fo beth bynnag."




Roedd pobl yn canmol Mwlsyn. "Mae'r ci yma'n arwr," gwaeddodd rhywun.

"Cafodd o fy mag i'n ôl," meddai'r hen wraig. "Roedd hynny sy gen i o arian ynddo."

"Da iawn, Supermwls!" meddai dyn.

"Wnes i ddim byd," meddyliodd Mwlsyn.





Roedd llong fawr yn dod i mewn. Aeth Mwlsyn at y doc i'w gweld. Roedd llawer o bobl yn gwylio'r llong. Roedd rhai ohonyn nhw'n chwifio'u dwylo. Am eu bod nhw'n llawn cyffro, aeth rhai'n rhy agos at ymyl y doc.

Yn sydyn, gwelodd Mwlsyn rywbeth yn digwydd.



Roedd bachgen wedi syrthio i'r dŵr. Roedd pawb yn gwylio'r llong, felly sylwodd neb arno.

"Gwaith arall i Supermwls," meddyliodd Mwlsyn. Neidiodd i'r dŵr a nofio at y bachgen bach.

"O na!" gwaeddodd dyn. "Fy machgen bach i ydi o. Mae o yn y dŵr."



"Peidiwch â phoeni," galwodd rhywun. "Bydd o'n iawn. Bydd Supermwls yn ei achub."

Cydiodd Mwlsyn yng nghrys y bachgen â'i ddannedd a'i dynnu o'r dŵr.

"Am gi!" meddai'r dyn. "Achubodd o fy mab."

"Tewch â sôn," meddyliodd Mwlsyn.




Roedd hanes Mwlsyn yn y papur newydd. Roedd lluniau ohono hefyd. Roedd pawb eisiau darllen hanes Mwlsyn yr arwr.

Roedd y papurau'n ei alw'n Supermwls. "Mae'n well na chael fy ngalw'n Mwlsyn," meddyliodd Mwlsyn.





Ble bynnag yr âi Mwlsyn, clywai'r geiriau, "Dyna Supermwls! Mae'n arwr!"

Pan fyddai eisiau croesi'r ffordd, byddai'r ceir i gyd yn aros.

"Supermwls!" gwaeddai'r gyrwyr. "I ble'r wyt ti'n mynd? Wyt ti angen reid?"



Roedd rhai cŵn annifyr yn y ddinas. Y mwyaf annifyr oedd Jero. Roedd yn ffrindiau pennaf gyda Jarff a Snich.

Gwelodd Jero, Jarff a Snich gi oedd ar goll.

"Mae'n gas gynnon ni gŵn sy'n gwisgo cotiau," chwyrnodd Jero, "yn ein rhan ni o'r dref."






Gwelodd Mwlsyn hyn. Aeth at Jero, Jarff a Snich.

"Gobeithio nad ydach chi'n bod yn gas efo'r ci yma sy ar goll," meddai.

"Ym...na...nac ydan siŵr iawn, Supermwls," meddai Jero. "Cynnig mynd ag o adref roedden ni."

"Peidiwch â phoeni," meddai Mwlsyn. "A i ag o."



Roedd dynion yn gweithio ar adeilad uchel. Roedd hi'n beryglus gweithio mor uchel i fyny. Yn sydyn, llithrodd un o'r dynion a syrthio. Roedd ar drawst a fedrai o ddim symud.


Rhuthrodd yr injan dân yno, ond doedd yr ysgolion ddim yn ddigon hir.



"Mae angen mynd â rhaff ato rywsut," gwaeddodd dyn tân. "Fedrwn ni ddim defnyddio hofrennydd."

Safai criw o bobl ar y stryd. Syllai pawb i fyny. "Bydd rhaid i rywun fynd â rhaff ato. Ond pwy?" gwaeddodd dyn.

"Tasg fach arall i mi," meddyliodd Supermwls.



Aeth Mwlsyn i'w achub â'r rhaff yn ei geg. Yna'n araf aeth ar hyd y trawst at y dyn. "Paid ag edrych i lawr, Supermwls," gwaeddodd y dyn. "Mae'n ffordd bell i syrthio."

"O diar!" meddyliodd Mwlsyn. "Am antur ofnadwy! Dydw i ddim yn hoffi bod i fyny'n fan'ma."




Cydiodd y dyn yn y rhaff. "Diolch, Supermwls!" galwodd. "Rwyt ti'n arwr mawr."

"Hwrê!" gwaeddodd pawb.

Dechreuodd yr allwedd hud ddisgleirio. Roedd yn amser i antur Mwlsyn ddod i ben.

"Hen bryd," meddyliodd Mwlsyn.



Roedd Cad yn flin pan welodd Mwlsyn ar ei gwely. "Dwyt ti ddim i fod i gysgu ar y gwely," meddai. "Dyna gi drwg wyt ti, Mwlsyn!"

Neidiodd Mwlsyn oddi ar y gwely a sleifio i lawr y grisiau. "Wn i ddim," meddyliodd. "Arwr un funud. Ci drwg yn syth wedyn."







Aeth y plant â Mwlsyn allan.

"Mae'n amser ras rwystrau Ci'r Flwyddyn eto," medden nhw.

Yn sydyn, rhedodd Mwlsyn i ffwrdd. Neidiodd dros y ffens ac i ffwrdd ag o nerth ei draed.

"Tyrd yn ôl, ci drwg!" gwaeddodd Dids.



Rhedodd Mwlsyn i'r parc a chuddio mewn pibell anferth.

"Chân nhw byth hyd imi yn fan'ma," meddyliodd. "Dydw i ddim eisio bod yn Gi'r Flwyddyn, ac nid Supermwls ydw i. Mwlsyn ydw i a'r cyfan rydw i eisio ydi tipyn bach o lonydd."



Argraffwyd yng Nghymru

# Supermwls

Coeden
Ddarllen
Rhydychen

Cam 9



Pïod

Stori gan
**Roderick Hunt**

Lluniau gan
**Alex Brychta**

Addasiad Cymraeg gan
**Emily Huws**

**Pïod Cam 8**
**Y drefn ddarllen a gymeradwyir:**

Yr Herwgipwyr
Antur Lychlynnaidd
Y Peiriant Enfysau
Y Carped Hud
Diwrnod yn Llundain
Antur Fictoraidd

**Pïod Cam 9**
**Y drefn ddarllen a gymeradwyir:**

Yr Ynys Fach Werdd
Castell y Ddrycin
Supermwls
Y Frenhines Sbwriel
Chwilio
Cadw'n Fyw

© Argraffiad Saesneg, Oxford University Press 1993
ⓗ Argraffiad Cymraeg, Gwasg Addysgol Drake 2000
ⓗ Yr addasiad Cymraeg ACCAC

ISBN 0-86174-324-5

ISBN 0 86 174324 5

DRAKE

9 790861 743246